

TGAU (9-1)


CBAC Eduqas TGAU (9-1) mewn LLADIN

ACHREDWYD GAN OFQUAL
DYNODWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2016
l'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 6 Rhagfyr 2024



CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll.	10
3	Cydran 2 – ychwanegwyd themâu i'w hasesu yn 2021, 2022 a 2023.	6
	Cydran 3A – ychwanegwyd naratifau Ovid a Tacitus i'w hasesu yn 2022 a 2023.	7
	Cydran 3B – mae testunau i'w hasesu hyd at 2020 wedi'u dileu.	8
	Atodiad C – mae testunau Cydran 3B i'w hasesu hyd at 2020 wedi'u dileu.	24
4	Cydran 2 – ychwanegwyd themâu i'w hasesu yn 2024, 2025 a 2026.	6
	Cydran 3A – ychwanegwyd naratifau Suetonius ac Ovid i'w hasesu yn 2024 a 2025.	7
	Atodiad C – ychwanegwyd testunau Cydran 3B i'w hasesu yn 2024, 2025 a 2026.	26
5	Cydran 3A – ychwanegwyd naratifau Livy a Virgil i'w hasesu yn 2026 a 2027.	7
6	Cydran 2 – mae themâu i'w hasesu yn 2021, 2022 a 2023 wedi'u dileu. Ychwanegwyd themâu i'w hasesu yn 2027, 2028 a 2029.	6
	Cydran 3B – mae testunau i'w hasesu hyd at 2023 wedi'u dileu. Mae testunau i'w hasesu hyd at 2029 wedi'u hychwanegu.	8
	Atodiad C – Mae testunau Cydran 3B i'w hasesu hyd at 2023 wedi'u dileu. Mae testunau cydran 3B i'w hasesu hyd at 2029 wedi'u hychwanegu.	24-26



TGAU CBAC Eduqas (9-1) mewn LLADIN

I'w addysgu o 2016
I'w ddyfarnu o 2018

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Cyflwyniad	3
1.1 Nodau ac Amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
2. Cynnwys y pwnc	5
2.1 Cydran 1	5
2.2 Cydran 2	6
2.3 Cydran 3	7
3. Asesu	9
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	9
4. Gwybodaeth dechnegol	10
4.1 Cofrestru	10
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	10
Atodiad A: Rhestrï geirfa diffiniedig ar gyfer Cydran 1	11
Atodiad B: Ffuriant a chystrawen ar gyfer Cydran 1	22
Atodiad C: Testunau a meysydd astudio ar gyfer Cydran 3B	24

TGAU LLADIN

CRYNODEB O'R ASESU

Cydran 1: Yr Iaith Ladin

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

50% o'r cymhwyster

Bydd y papur hwn mewn dwy adran.

Adran A

Amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall byr sy'n profi dealltwriaeth o'r stori (55% o'r marciau ar gyfer y gydran hon).

Cyfieithiad o ddarn o'r Lladin i'r Gymraeg, sy'n graddol fynd yn anoddach (35% o'r marciau ar gyfer y gydran hon).

Adran B

Naill ai Cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Lladin **neu'r** dewis arall sydd wedi'i ganiatáu, h.y. adnabod, dadansoddi ac esbonio eitemau o gystrawen a ffurfiant (10% o'r marciau ar gyfer y gydran hon).

Cydran 2: Llenyddiaeth a Ffynonellau Lladin (Themâu)

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

30% o'r cymhwyster

Casgliad o lenyddiaeth Ladin, rhyddiaith a phenillion, ar thema ynghyd â deunyddiau gosod ffynhonnell hynafol ar yr un thema.

Cynigir dewis o un o ddwy thema.

Asesiad llyfr agored yw hwn.

NAILL AI Cydran 3A: Llenyddiaeth Ladin (Naratifau)

NEU Gydran 3B: Gwareiddiad Rhufain

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr

20% o'r cymhwyster

NAILL AI

3A: Casgliad o lenyddiaeth Ladin sy'n ffurfio naratif, ynghyd â darn(au) cyfagos yn Gymraeg/Saesneg.

Cynigir dewis o un o ddau naratif (un pennill ac un rhyddiaith).

Asesiad llyfr agored yw hwn.

NEU

3B: Testun gosod Gwareiddiad Rhufain

Cynigir dewis o un o ddau destun.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 601/7811/5

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr [QiW](#): C00/0792/1

TGAU LLADIN

1 CYFLWYNIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Nod CBAC Eduqas TGAU mewn Lladin yw cynnig sylfaen o gymhwysedd ieithyddol a diwylliannol, gan alluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Rhufeinig trwy ddarllen ac ymateb i'w iaith a'i lenyddiaeth.

Yn benodol, mae'r fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i:

- ddatblygu a defnyddio eu gwybodaeth am eirfa, morffoleg a chystrawen er mwyn darllen, deall a dehongli Lladin syml
- datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o lenyddiaeth Ladin a'i gwerthoedd a chymdeithas gysylltiedig drwy astudio testunau gwreiddiol, wedi'u haddasu a'u crynhoi fel y bo'n briodol
- dewis, dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth i ddod i gasgliadau gwybodus o'r llenyddiaeth a astudiwyd i
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun hanesyddol, llenyddol a diwylliannol darn o destun ac
- adnabod a gwerthfawrogi ei ffurf lenyddol a'i effaith ar y darllenydd
- datblygu a chymhwyso eu sgiliau beirniadol, dadansoddol a myfyriol i werthuso tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau
- datblygu mewnwelediadau i berthnasedd yr iaith Ladin, ei llenyddiaeth a diwylliant Rhufain i'r byd modern.

Mae hefyd yn annog dysgwyr i:

- ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith hynafol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o Gymraeg ac ieithoedd eraill
- cysylltu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd hynafol â disgyblaethau eraill
- datblygu sgiliau ymchwil a dadansoddi a fydd yn eu grymuso i fod yn fyfyrwyr annibynnol ac ymholwyr, gan eu paratoi ar gyfer astudio pellach yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau.

Mae'r fanyleb hon yn cydnabod bod dysgwyr yn cyrraedd y safon TGAU mewn Lladin drwy lawer o wahanol lwybrau a faint o fynediad sydd ganddynt at amser dysgu ac addysgu. Felly, mae'n anelu at ganiatáu cymaint o gyfleoedd â phosibl i ganolfannau a dysgwyr i ddylunio cyrsiau sy'n fwyaf priodol i'w hanghenion a'u diddordebau. Gan fod hwn yn asesiad di-haen, mae CBAC yn ymwybodol o'r angen i ddarparu ar gyfer yr holl ystod gallu.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a allai gael ei addysgu yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Mae unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar gyfer cychwyn ar gwrs yn seiliedig ar y fanyleb hon yn fater i ddisgresiwn yr ysgol/ coleg.

Mae'n darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Lladin ar lefel Uwch Gyfrannol, Safon Uwch, Bagloriaeth Ryngwladol neu Gyn-Brifysgol. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd, ei gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud hi'n fwy anodd i ddysgwyr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ): *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i greu yn unol â'r cynnwys pwnc a osodwyd gan yr Adran Addysg a'r canllawiau technegol gan Ofqual. Mae'n cynnwys dwy gydran orfodol (Cydrannau 1 a 2) ac un gydran arall o ddewis o ddwy (Cydrannau 3A a 3B).

2.1 Cydran 1

Yr Iaith Ladin

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

50% o'r cymhwyster

100 marc

Yn y gydran hon dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:

- adnabod a defnyddio'r ffurfiant a'r gystrawen sydd wedi'u rhestru yn Atodiad B
- dangos gwybodaeth o'r eirfa a gwneud defnydd cywir o'r eirfa yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig Lladin-Cymraeg
- cyfieithu darn o ryddiaith Lladin (wedi'i gyfansoddi neu wedi'i addasu) i'r Gymraeg yn gywir
- deall darn o Ladin ac ateb cwestiynau arno yn Gymraeg
- dangos gwybodaeth am y cysylltiadau deilliant rhwng Lladin a Chymraeg
- cyfieithu brawddegau byr o'r Gymraeg i'r Lladin gan ddefnyddio'r Rhestr Eirfa Ddiffiniedig osod a'r gystrawen a'r ffurfiant gosod

NEU

- adnabod, dadansoddi ac esbonio'r gystrawen a'r ffurfiant gosod (fel sydd wedi'i restru yn Atodiad B) o fewn darn byr o destun Lladin.

Mae'r gydran hon yn cynnwys dwy adran orfodol, lle mae dysgwyr yn ymateb i ddeunydd na chafodd ei weld o'r blaen.

Adran A: mae hon ar ffurf prawf momentwm sy'n cynnwys naratif yn Lladin wedi'i rannu'n dri darn. Mae cwestiynau darllen a deall ar rannau un a thri (cyfanswm o 55% o'r marciau ar gyfer y papur hwn), ac mae'r rhan ganol i'w chyfieithu i'r Gymraeg (35%). Mae'r anhawster yn cynyddu rhwng rhannau un a thri ac o fewn y darn i'w gyfieithu.

Mae Rhestr Eirfa Ddiffiniedig o 440 o eiriau yn Atodiad A. Bydd unrhyw eiriau eraill sy'n ymddangos yn y naratif yn cael eu hesbonio. Rhoddir set o strwythurau gramadegol y mae disgwyl i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â nhw yn Atodiad B.

Mae adran A yn cyfrif am 90% o'r marciau yn y gydran hon.

Adran B: mae hon yn cynnig y dewis rhwng:

- cyfieithu nifer bach o frawddegau (un cymal) o'r Gymraeg i'r Lladin. Caiff yr eirfa a'r ffurfiant sy'n ofynnol ar gyfer yr opsiwn hwn eu rhoi yn Atodiad A ac Atodiad B.
- adnabod, dadansoddi ac esbonio cystrawen a ffurfiant mewn darn byr o destun Lladin. Caiff y strwythurau gramadegol sy'n ofynnol ar gyfer yr opsiwn hwn eu rhoi yn Atodiad B.

Mae Adran B yn cyfrif am 10% o'r marciau yn y gydran hon.

2.2 Cydran 2

Llenyddiaeth a Ffynonellau Lladin (Themâu)

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

30% o'r cymhwyster

60 marc

Yn y gydran hon dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:

- dangos gwybodaeth am y darnau gosod a'r deunydd ffynhonnell cysylltiedig
- dewis, dadansoddi ac ymateb i agweddau ar arddull lenyddol yn cynnwys elfennau fel:
 - dewis geiriau a threfn geiriau
 - effeithiau sain
 - rhythm mewn darnau penillion
 - dyfeisiau llenyddol cyffredin (megis cyffelybiaeth, trosiad, cyflythreniad, cyseinedd, digysylltiad a chiasmws)
- dangos ymwybyddiaeth o gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol y deunydd gosod.
- dewis a gwerthuso tystiolaeth o bob rhan o'r thema i ymateb i gwestiwn gwerthuso estynedig.

Mae pob thema, sy'n cynnwys rhyddiaith a phenillion, yn cyd-fynd â detholiad o ddeunyddiau ffynhonnell hynafol gosod (e.e. paentiadau, mosaigau, cerfluniau, adeiladau, graffiti) a bydd un neu fwy o gwestiynau yn cael eu gofyn arnynt.

Bydd dewis o ddwy thema mewn unrhyw sesiwn.

- Y themâu i'w harholi yn **2024**, **2025** a **2026** yw *Rhufeiniaid yng Nghefn Gwlad a Cariad a Phriodas*.
Y themâu i'w harholi yn **2027**, **2028** a **2029** yw *Arwyr a Dihirod - detholiad o destunau a ffynonellau Lladin ar y Rhufeiniaid da a drwg a Dewch i fwyta gyda mi! - detholiad o destunau a ffynonellau Lladin ar fwyd a bwyta yn y byd Rhufeinig*.

Bydd pob thema yn cael ei harholi am dair sesiwn. Gellir dod o hyd i lyfryn adnoddau sy'n cynnwys yr holl ddeunydd gosod ar wefan CBAC Eduqas.

Mae hwn yn arholiad llyfr agored (h.y. yn yr ystafell arholi bydd dysgwyr yn cael copi glân o'r llyfryn adnoddau gan CBAC).

Mae o leiaf un cwestiwn yn gofyn am ymateb gwerthuso estynedig gan ddefnyddio deunydd o'r thema a ddewiswyd. Yn eu hymatebion estynedig, dylai dysgwyr ddangos eu gallu i adeiladu a datblygu trywydd rhesymu cyson sy'n gydlynol ac yn rhesymegol, sy'n cynnwys tystiolaeth berthnasol ar draws y thema gyfan.

2.3 Cydran 3

NAILL AI 3A: Llenyddiaeth Ladin (Naratifau)

NEU 3B: Gwareiddiad Rhufain

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr

20% o'r cymhwyster

40 marc

Yng **Nghydran 3A** mae dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i ddeall, dadansoddi a gwerthuso darn neu ddarnau o lenyddiaeth Ladin sy'n ffurfio naratif, ynghyd â darn neu ddarnau o naratif yn Gymraeg sy'n ymestyn y stori.

- dangos gwybodaeth o'r darnau gosod yn Lladin a Chymraeg
- dewis, dadansoddi ac ymateb i agweddau ar arddull lenyddol yn cynnwys elfennau fel:
 - dewis geiriau a threfn geiriau
 - effeithiau sain
 - rhythm mewn darnau penillion
 - dyfeisiau llenyddol cyffredin (megis cyffelybiaeth, trosiad, cyflythreniad, cyseinedd, digysylltiad a chiasmws)
- dangos ymwybyddiaeth o gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol y deunydd gosod.
- dewis a gwerthuso tystiolaeth o bob rhan o'r naratif i ymateb i gwestiwn gwerthuso estynedig.

Bydd dewis o ddau naratif, un rhyddiaith ac un pennill. Mae pob naratif yn cynnwys darn parhaus o Ladin ac oddeutu'r un swm mewn cyfieithiad Saesneg.

- Yr awduron i'w harholi yn **2024 a 2025** yw *Suetonius (Nero)*, yn Lladin a Saesneg) ac *Ovid (The Adventures of Perseus)*, yn Lladin a Saesneg).
- Yr awduron i'w harholi yn **2026 a 2027** yw Livy (Hannibal yn croesi'r Alpau, yn Lladin a Saesneg) a Virgil (Hercules a Cacus, yn Lladin a Saesneg)

Bydd pob casgliad yn cael ei arholi am ddwy sesiwn. Gellir dod o hyd i lyfryn adnoddau sy'n cynnwys yr holl ddeunydd gosod ar wefan CBAC Eduqas.

Mae hwn yn arholiad llyfr agored (h.y. yn yr ystafell arholi bydd dysgwyr yn cael copi glân o'r llyfryn adnoddau gan CBAC).

Mae o leiaf un cwestiwn yn gofyn am ymateb gwerthuso estynedig gan ddefnyddio deunydd o bob rhan o'r naratif a ddewiswyd. Yn eu hymateb estynedig, dylai dysgwyr ddangos eu gallu i adeiladu a datblygu trywydd rhesymu cyson sy'n gydlynol ac yn rhesymegol, sy'n cynnwys tystiolaeth berthnasol o'r naratif cyfan (Lladin a Saesneg).

Yng **Nghydran 3B** dylai'r dysgwyr allu:

- dangos gwybodaeth am agwedd ar wareiddiad Rhufain
- dadansoddi ac ymateb i ddeunydd ffynhonnell hynafol
- gwerthuso tystiolaeth o bob rhan o'r testun i ymateb i gwestiwn gwerthuso estynedig.

Ym mhob sesiwn caiff dwy agwedd ar wareiddiad Rhufain eu gosod gyda phum maes astudio dan arweiniad gyda rhagor o fanylion. Ni fydd unrhyw ddeunyddiau ffynhonnell hynafol penodol ond mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau o'r fath ar gael ar wefannau CBAC Eduqas a Cambridge School Classics Project. Bydd arholwyr yn defnyddio'r deunydd hwn a deunyddiau ffynhonnell tebyg eraill wrth osod cwestiynau. Testunau ar gyfer y sesiynau yn 2024, 2025 a 2026 yw *bywyd teuluol Rhufeinig a dinas Rhufain*. Testunau ar gyfer y sesiynau yn 2027, 2028 a 2029 yw *Caethwasiaeth yn y byd Rhufeinig a Gwyliau ac addoli Rhufeinig*. Bydd pob testun yn cael ei arholi am dair sesiwn. Mae manylion y testunau a'u meysydd astudio i'w gweld yn Atodiad C.

Mae o leiaf un cwestiwn yn gofyn am ymateb gwerthuso estynedig gan ddefnyddio deunydd o bob rhan o'r testun a ddewiswyd. Yn eu hymatebion estynedig, dylai dysgwyr ddangos eu gallu i adeiladu a datblygu trywydd rhesymu cyson sy'n gydlynol ac yn rhesymegol, sy'n cynnwys tystiolaeth berthnasol o bob rhan o'r testun cyfan.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu gallu i:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith Ladin

AA2

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lenyddiaeth Ladin a/neu ffynonellau hynafol eraill

AA3

Dadansoddi, gwerthuso ac ymateb i lenyddiaeth Ladin a/neu ffynonellau hynafol eraill

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Cydran 1	50%	-	-	50%
Cydran 2	-	15%	15%	30%
Cydran 3A/3B	-	10%	10%	20%
Pwysoli cyffredinol	50%	25%	25%	100%

Mae 10% o AA1 yn cael ei briodoli i gyfieithu i'r Lladin neu'r dewis arall sy'n cael ei ganiatáu.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2018.

Gall dysgwr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Mae'r codau cofrestru'n cael eu dangos isod.

Teitl y cymhwyster	Llwybr	Codau cofrestru
CBAC Eduqas TGAU Lladin	Llwybr A – yn cynnwys Cydran 3A: Llenyddiaeth Ladin (Naratifau)	C990PA
	Llwybr B – yn cynnwys Cydran 3B: Gwareiddiad Rhufain	C990PB

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa naw pwynt o 1–9, a 9 yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD A

Rhestr Eirfa Ddiffiniedig ar gyfer Cydran 1 (Adran A)

Cyffredinol

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â'r holl eiriau yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig. Bydd geiriau sy'n cael eu defnyddio yn y Prawf Momentwm (Adran A o'r papur) yn cael eu hesbonio os nad ydynt yn ymddangos yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig. Yn ogystal, os bydd gair yn cael ei ddefnyddio gydag ystyr nad yw'n cael ei roi yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig, bydd yn cael ei esbonio. Ar gyfer Adran B, yn y cwestiwn cyfieithu, bydd yr holl eiriau Cymraeg yn cael eu cymryd o'r Rhestr Eirfa Ddiffiniedig Cymraeg-Lladin pwrpasol (Atodiad A). Ar gyfer Adran B, yn y cwestiwn gramadeg, bydd yr holl eiriau yn cael eu cymryd o'r Rhestr Eirfa Ddiffiniedig.

Berfau cyfansawdd

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â chyfansoddion cyffredin berfau syml a roddir yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig sy'n cael eu ffurfio drwy ychwanegu un rhagddodiad sydd wedi'i gynnwys yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig, a lle mae ystyron sylfaenol y rhagddodiad a'r bôn yn cael eu cadw. Mae hyn yn cynnwys newidiadau llafariad rheolaidd ym môn berf a newidiadau cytseiniol yn y rhagddodiad.

Ansoddeiriau

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â ffurfiau cymharol ac eithaf yr holl ansoddeiriau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig.

Adferfau

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â ffurfio adferfau rheolaidd o unrhyw un o'r ansoddeiriau sy'n ymddangos yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig, yn cynnwys ffurfiau eithaf rheolaidd.

Rhifau

Disgwylir iddynt wybod y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig: bydd pob un arall yn cael ei esbonio ar y papur arholiad.

Rhestr o fyrfoddau sy'n cael eu defnyddio

abl	abladol
gwrth	gwrthrychol
derb	derbyniol
b.	benywaidd
diog.	diogwydd
g.	gwrywaidd
d.	diryw
ll.	lluosog

a, ab + abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
absum, abesse

ac, atque (diog.)
accido, accidere, accidi
accipio, accipere, accepi, acceptus
ad + acc (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
adeo (diog.)
adiuvo, adiuvere, adiuvi, adiutus
adsum, adesse
advenio, advenire, adveni
ago, agere, egi, actus
aliquis, aliquid
alius, alia, aliud
alter, altera, alterum
altus, alta, altum
ambulo, ambulare, ambulavi
amicus, amici, g.
amo, amare, amavi, amatus
amor, amoris, g.
ancilla, ancillae, b.
animus, animi, g.
annus, anni, g.
ante + gwrth
antea (diog.)
aperio, aperire, aperui, apertus
appareo, apparere, apparui
appropinquo, appropinquare, appropinquavi + dat
apud + gwrth
aqua, aquae, b.
audax, audacis
audio, audire, audivi, auditus
aufero, auferre, abstuli, ablatus

aut ... aut (diog.)
bellum, belli, d.
bene (diog.)
benignus, benigna, benignum
bibo, bibere, bibi
bonus, bona, bonum
brevis, breve
cado, cadere, cecidi, casus
caelum, caeli, d.
canis, canis, g.
capio, capere, cepi, captus

caput, capitis, d.
carus, cara, carum
celer, celere
celo, celare, celavi, celatus
cena, cenae, b.
centum (diog.)
ceteri, ceterae, cetera
cibus, cibi, g.
circum + gwrth (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
civis, civis, g.b.
clamo, clamare, clamavi, clamatus
clamor, clamoris, g.
coepi, coepisse, coeptus

o, gan (fel rhagddodiad = i ffwrdd)
bod allan, bod yn absennol, bod i
ffwrdd

a
digwydd
derbyn, cymryd i mewn, cael
i, tuag at, at
cymaint, yn wirioneddol
help
bod yma, bod yn bresennol
cyrraedd
gwneud, ymddwyn, gyrru
rhywun, rhywbeth
arall, un arall, rhywbeth arall
y llall, un arall, yr ail o ddau
uchel, dwfn
cerdded
cyfaill
caru, hoffi
caru
caethferch, morwyn
ysbryd, enaid, meddwl
blwyddyn
cyn, o flaen
cyn
agor, agored
ymddangos, digwydd
agosáu, dod yn agos at
ymhlith, gyda, yn nhŷ
dŵr
beiddgar, hy
clywed, gwranddo ar
mynd â fo/hi ymaith, cario i ffwrdd,
dwyn
naill ai ... neu
rhyfel
yn dda
caredig, hael
diod, yfed
da
byr, cryno
syrthio
awyr, nefoedd
ci
cymryd, dal, cipio, mabwysiadu
(cynllun)
pen
annwyl
cyflym, sydyn
cuddio
cinio, pryd o fwyd
cant
y gweddill, y lleill
bwyd
o gwmpas
dinesydd
gweiddi
gwaedd, gweiddi, sŵn
dechrau (amser gorffennol yn unig)

cogito, cogitare, cogitavi, cogitatus
 cognosco, cognoscere, cognovi, cognitus
 cogo, cogere, coegi, coactus
 comes, comitis, g.b.
 conficio, conficere, confeci, confectus
 conor, conari, conatus sum
 consilium, consilii, d.
 conspicio, conspiciere, conspexi, conspectus
 constituo, constituere, constitui, constitutus
 consumo, consumere, consumpsi, consumptus
 contra + gwrth
 corpus, corporis, d.
 credo, credere, credidi, creditus + dod
 crudelis, crudele
 cum + abl (fel rhagddodiad col- / com- / con- / cor-)
 cum (diog.)
 cupio, cupere, cupivi
 cur? (diog.)
 cura, curae, b.
 curo, curare, curavi, curatus
 curro, currere, cucurri, cursus
 custos, custodis, g.b.
 de + abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)

 dea, deae, b.
 debeo, debere, debui, debitus
 decem (diog.)
 deinde (diog.)
 deleo, delere, deleui, deletus
 despero, desperare, desperavi, desperatus
 deus, dei, g.
 dico, dicere, dixi, dictus
 dies, diei, g.
 difficilis, difficile
 dirus, dira, dirum
 discedo, discedere, discessi
 diu (diog.)
 dives, divitis
 do, dare, dedi, datus
 domina, dominae, b.
 dominus, domini, g.
 domus, domus, b. (domi = gartref)
 donum, doni, d.
 dormio, dormire, dormivi
 duco, ducere, duxi, ductus
 dum
 duo, duae, duo
 durus, dura, durum
 dux, ducis, g.
 e, ex + abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)

 effugio, effugere, effugi
 ego, mei
 egredior, egredi, egressus sum
 emo, emere, emi, emptus
 enim (diog.)
 eo, ire, ii
 epistula, epistulae, b.
 equus, equi, g.

meddwl, ystyried
 dod i adnabod, darganfod, dysgu
 gorfodi, cymell
 cymrawd, cydymaith
 gorffen, gwisgo allan, diffygio
 ceisio
 cynllun, syniad, cyngor
 gweld, sylwi ar
 penderfynu
 bwyta
 yn erbyn
 corff
 credu, ymddiried, cael ffydd yn
 creulon
 gyda (fel rhagddodiad = gyda'i gilydd)
 pan, ers
 eisiau, awydd
 pam?
 gofal, poeni
 edrych ar ôl, gofalu am, goruchwyllo
 rhedeg
 gwarchod
 o, i lawr o, tua (fel rhagddodiad = i
 lawr)
 duwies
 dyledus, rhaid, dylai, gorfod
 deg
 yna
 dinistrio
 anobeithio
 duw
 dweud
 dydd, diwrnod
 anodd
 ofnadwy
 ymadael, gadael
 am amser hir
 cyfoethog
 rhoi
 meistres
 meistr
 cartref, tŷ
 rhodd, anrheg
 cysgu
 arwain, cymryd
 tra
 dau
 caled, llym
 arweinydd
 o, allan o (fel rhagddodiad = allan, i
 ffwrdd)
 dianc
 fi, myfi
 mynd allan
 prynu
 ar gyfer
 mynd
 llythyr
 ceffyl

et (diog.)
 etiam (diog.)
 exspecto, exspectare, exspectavi, exspectatus
 facilis, facile
 facio, facere, feci, factus
 femina, feminae, b.
 fero, ferre, tuli, latus
 ferox, ferocis
 festino, festinare, festinavi
 fidelis, fidele
 filia, filiae, b.
 filius, filii, g.
 flumen, fluminis, d.
 forte (diog.)
 fortis, forte
 forum, fori, d.
 frango, frangere, fregi, fractus
 frater, fratris, g.
 frustra (diog.)
 fugio, fugere, fugi
 gero, gerere, gessi, gestus
 gladius, gladii, g.
 gravis, grave
 habeo, habere, habui, habitus
 habito, habitare, habitavi, habitatus
 heri (diog.)
 hic (diog.)
 hic, haec, hoc
 hodie (diog.)
 homo, hominis, g.
 hora, horae, b.
 hortus, horti, g.
 hostis, hostis, g.
 iaceo, iacere, iacui
 iacio, iacere, ieci, iactus
 iam (diog.)
 ianua, ianuae, b.
 ibi (diog.)
 igitur (diog.)
 ignis, ignis, m.
 ille, illa, illud
 imperator, imperatoris, g.
 imperium, imperii, d.
 impero, imperare, imperavi, imperatus + dod
 in + gwrth (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
 in + abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
 incendo, incendere, incendi, incensus
 infelix, infelicitas
 ingens, ingentis
 ingredior, ingredi, ingressus sum
 inquit
 insula, insulae, b.
 intellego, intellegere, intellexi, intellectus
 inter + gwrth
 interea (diog.)
 intro, intrare, intravi, intratus
 invenio, invenire, inveni, inventus
 ira, irae, b.
 iratus, irata, iratum

a
 hefyd, hyd yn oed
 aros am
 hawdd
 gwneud
 menyw
 dod â, cario, dwyn
 gwyllt, ffyrnig
 brysio
 ffyddlon, teyrngar
 merch
 mab
 afon
 ar hap
 dewr
 fforwm, marchnad
 torri
 brawd
 yn ofer
 rhedeg i ffwrdd, ffoi
 gwisgo (dillad), rhyfela
 cleddyf
 trwm, difrifol
 cael
 byw
 ddoe
 yma
 hwn
 heddiw
 dyn, bod dynol, person
 awr
 gardd
 gelyn
 gorwedd
 taflu
 nawr, eisoes
 drws
 yno
 felly, ac felly
 tân
 hwnnw/honno, fo, hi, hynny
 ymerawdwr, cadlywydd, cadfridog
 ymerodraeth, pŵer, gorchymyn
 gorchymyn
 i mewn, ymlaen
 yn, ar
 llosgi, rhoi ar dân
 anlwcus, anhapus
 enfawr
 i mewn
 dweud, meddai
 ynys, bloc o fflatiau
 deall, sylweddoli
 ymhlith, rhwng
 yn y cyfamser
 mynd i mewn
 dod o hyd
 dicter
 yn ddig

is, ea, id

ita (diog.)

ita vero (diog.)

itaque (diog.)

iter, itineris, d.

iterum (diog.)

iubeo, iubere, iussi, iussus

iuvenis, iuvenis, g.

labor, laboris, g.

laboro, laborare, laboravi

lacrimo, lacrimare, lacrimavi

laetus, laeta, laetum

latus, lata, latum

laudo, laudare, laudavi, laudatus

legatus, legati, g.

legio, legionis, b.

lego, legere, legi, lectus

lente (diog.)

libenter (diog.)

liberi, liberorum, g. ll.

libero, liberare, liberavi, liberatus

libertus, liberti, g.

locus, loci, g.

longus, longa, longum

loquor, loqui, locutus sum

lux, lucis, b.

magnopere (diog.)

magnus, magna, magnum

maior, maius (cymharol afreolaidd)

malus, mala, malum

maneo, manere, mansi

manus, manus, b.

mare, maris, d.

maritus, mariti, g.

mater, matris, b.

maximus, maxima, maximum

medius, media, medium

melior, melius (cymharol afreolaidd)

meus, mea, meum

miles, militis, g.

mille, ll. milia

minor, minus (cymharol afreolaidd)

minime (diog.)

minimus, minima, minimum

miser, misera, miserum

mitto, mittere, misi, missus

modus, modi, g.

mons, montis, g.

mорий, mori, mortuus sum

mors, mortis, b.

mox (diog.)

multo, multum (diog.)

multus, multa, multum

murus, muri, g.

nam (diog.)

narro, narrare, narravi, narratus

nauta, nautae, g.

navigo, navigare, navigavi

hwn/hon, hwnnw/honno, fo, hi, hynny, nhw

yn y modd hwn, felly

oes, ia, ydw, ydi

ac felly, o ganlyniad

taith, llwybr, ffordd

eto

archebu

ifanc, dyn ifanc

gwaith

gwaith

wylo, crio

hapus

llydan

canmol

cadlywydd

lleng

darllen, dewiswch

yn araf

yn barod, yn llawen

plant

rhydd, rhyddhau

gwas rhydd, cyn-gaethwas

lle

hir

siarad

golau, golau dydd

yn fawr, yn fawr iawn

mawr, helaeth, gwyth

mwy, helaethach, gwythach

drygioni, drwg

aros

llaw, grŵp o bobl

môr

gŵr

mam

y mwyaf, y gwythaf, mawr iawn,

gwyth iawn

canol, yng nghanol

gwell

fy

milwr

mil

llai

ychydig iawn, lleiaf, dim

ychydig iawn, bach iawn

prudd, truenus, trist

anfon

modd, ffordd, math

mynydd

marw

angau

yn fuan

llawer

llawer, nifer

mur

ar gyfer

dweud, adrodd

morwr

hwylio

navis, navis, b.
 ne (diog.)
 -ne (diog.) (wedi'i ychwanegu at ddiwedd gair)
 nec... nec, neque ... neque (diog.)
 necesse (diog.)
 neco, necare, necavi, necatus
 nemo, neminis neb
 nescio, nescire, nescivi
 nihil (diog.)
 nolo, nolle, nolui
 nomen, nominis, d.
 non (diog.)
 nonne? (diog.)
 nos, nostrum
 noster, nostra, nostrum
 novem (diog.)
 novus, nova, novum
 nox, noctis, b. nos
 nullus, nulla, nullum
 num (diog.)
 num? (diog.)
 numquam (diog.)
 nunc (diog.)
 nuntio, nuntiare, nuntiavi, nuntiat
 nuntius, nuntii, g.
 occido, occidere, occidi, occisus
 octo (diog.)
 offero, offerre, obtuli, oblatus
 olim (diog.)
 omnis, omne
 oppugno, oppugnare, oppugnavi, oppugnatus
 optimus, optima, optimum
 oro, orare, oravi, oratus
 ostendo, ostendere, ostendi, ostentus
 paene (diog.)
 pareo, parere, parui + dod
 paro, parare, paravi, paratus
 pars, partis, b.
 parvus, parva, parvum
 pater, patris, g.
 pauci, paucae, pauca
 pax, pacis, b.
 pecunia, pecuniae, b.
 peior, peius (cymharol afreolaidd)
 per + gwrth (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
 pereio, perire, perii
 periculum, periculi, d.
 persuadeo, persuadere, persuasi + dod
 perterritus, perterrita, perterritum
 pes, pedis, g.
 pessimus, pessima, pessimum
 peto, petere, petivi, petitus

 placeo, placere, placui + dod
 plenus, plena, plenum
 plus, pluris (cymharol afreolaidd)
 poena, poenae, b.
 poenas do, dare, dedi, datus
 pono, ponere, posui, positus
 porta, portae, b.

llong
 hynny... ddim, fel bod ... ddim
 yn cyflwyno cwestiwn
 nid ... na
 angenrheidiol
 lladd

 ddim yn gwybod
 dim byd
 ddim eisiau, gwrthod
 enw
 nid
 does bosib?
 ni, ninnau
 ein
 naw
 newydd

 dim un, na
 p'un ai
 does bosib nad... ?
 byth
 nawr
 cyhoeddi, adrodd
 negesydd, neges, newyddion
 lladd
 wyth
 cynnig
 unwaith, beth amser yn ôl
 pawb, popeth
 ymosod
 y gorau, da iawn, ardderchog
 ymbil, ymbilio am
 dangos, arddangos
 bron
 ufuddhau
 paratoi
 rhan
 bach
 tad
 ychydig
 heddwch
 arian
 gwaeth
 drwy, ar hyd
 marw, trengi
 perygl
 perswadio
 dychrynlyd
 troed, pawen
 y gwaethaf, drwg iawn
 gwneud am, ymosod, ceisio, erfyn,
 gofyn am
 os gwelwch yn dda
 llawn
 mwy
 cosb
 talu'r pris, cael eu cosbi
 rhoi, gosod,
 clwyd, gât

porto, portare, portavi, portatus
 possum, posse
 post + gwrth ar ôl, y tu ôl
 postea (diog.)
 postquam (diog.)
 postridie (diog.)
 postulo, postulare, postulavi, postulatus
 praebeo, praeberere, praebui, praebitus
 praemium, praemii, d.
 primus, prima, primum
 princeps, principis, g.
 pro + abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)

procedo, procedere, processi
 progredior, progredi, progressus sum
 promitto, promittere, promisi, promissus
 prope + gwrth
 propter + gwrth
 proximus, proxima, proximum
 puella, puellae, b.
 puer, pueri, g.
 pugno, pugnare, pugnavi
 pulcher, pulchra, pulchrum
 puto, putare, putavi, putatus
 quaero, quaerere, quaesivi, quaesitus
 qualis, quale?
 quam (diog.)
 quamquam (diog.)
 quantus, quanta, quantum?
 quattuor (diog.)
 -que (diog.) (wedi'i ychwanegu at ddiwedd gair)
 qui, quae, quod
 quinque (diog.)
 quis, quid?
 quo? (diog.)
 quod (diog.)
 quo modo? (diog.)
 quoque (diog.)
 quot? (diog.)
 rapio, rapere, rapui, raptus
 re- (rhagddodiad a ddefnyddir gyda berfau)
 reddo, reddere, reddidi, redditus
 redeo, redire, redii
 refero, referre, rettuli, relatus
 regina, reginae, b.
 regredior, regredi, regressus sum
 relinquo, relinquere, reliqui, relictus
 res, rei, b.
 resisto, resistere, restiti + dod
 respondeo, respondere, respondi, responsus
 rex, regis, g.
 rideo, ridere, risi
 rogo, rogare, rogavi, rogatus
 Roma, Romae, b. (Romae: yn Rhufain)
 Romanus, Romana, Romanum
 sacer, sacra, sacrum
 saepe (diog.)
 saevus, saeva, saevum
 saluto, salutare, salutavi, salutatus
 sanguis, sanguinis, g.

cario
 gall, gallu
 wedyn
 ar ôl, pan
 ar y diwrnod canlynol
 mynnu
 darparu
 gwobr, elw
 cyntaf
 pennaeth, penadur, ymerawdwr
 o flaen, am, yn gyfnewid am (fel rhagddodiad = ymlaen)
 symud ymlaen
 symud ymlaen
 addo
 ger
 oherwydd
 agosaf, nesaf
 geneth
 bachgen
 ymladd
 hardd, golygus
 meddwl
 chwilio am, edrych am, gofyn
 pa fath o?
 na, sut ... ? sut ... !
 er
 pa mor fawr? faint?
 pedwar
 a
 pwy, pa
 pump
 pwy? beth?
 i ble?
 oherwydd
 sut? ym mha ffordd?
 hefyd, yn ogystal
 sawl?
 cipio, cythru
 yn ôl
 rhoi yn ôl, adfer
 mynd yn ôl, dod yn ôl, dychwelyd
 dod/cario yn ôl, adrodd, dweud
 brenhines
 mynd yn ôl, dychwelyd
 gadael, gadael ar ôl
 peth, busnes, mater
 gwrthsefyll
 ateb, ymateb
 brenin
 chwerthin, gwenu
 gofyn, gofyn am
 Rhufain
 Rhufeinig
 sanctaidd
 yn aml
 ffyrnig, creulon
 cyfarch
 gwaed

scio, scire, scivi, scitus
scribo, scribere, scripsi, scriptus
se, sui
sed (diog.)
sedeo, sedere, sedi
semper (diog.)
senator, senatoris, g.
senex, senis, g.
sentio, sentire, sensi, sensus
septem (diog.)
sequor, sequi, secutus sum
servo, servare, servavi, servatus
servus, servi, g.
rhyw (diog.)
si (diog.)
sic (diog.)
sicut (diog.)
signum, signi, d.
silva, silvae, b.
simulac, simulatque
sin + abl
solus, sola, solum

soror, sororis, b.
specto, spectare, spectavi, spectatus
spes, spei, b.
statim (diog.)
sto, stare, steti
stultus, stulta, stultum
sub + gwrth/abl (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau) o dan, oddi tano (fel rhagddodiad =
o dan, hyd at)
subito (diog.)
sum, esse, fui
summus, summa, summum
supero, superare, superavi, superatus
surgo, surgere, surrexi
suus, sua, suum
taberna, tabernae, b.
taceo, tacere, tacui, tacitus
talis, tale
tam (diog.)
tamen (diog.)
tandem (diog.)
tantus, tanta, tantum
templum, templi, d.
tempus, temporis, d.
teneo, tenere, tenui, tentus
terra, terrae, b.
terreo, terrere, terrui, territus
timeo, timere, timui
tollo, tollere, sustuli, sublatus
tot (diog.)
totus, tota, totum
trado, tradere, tradidi, traditus
traho, trahere, traxi, tractus
trans + gwrth (a ddefnyddir hefyd fel rhagddodiad gyda berfau)
tres, tria
tristis, triste
tu, tui
tum (diog.)

gwybod
ysgrifennu
ei hun, eu hunain
ond
eistedd
bob amser
seneddwr
hen, hen ddyn
teimlo, sylwi
saith
dilyn
achub, edrych ar ôl
caethwas
chwech
os
felly, yn y modd hwn
yn union fel, fel
arwydd, signal, sêl
pren
cyn gynted â
heb
ar ei ben ei hun, unig, yn unig, ar eich
pen ei hun
chwaer
edrych ar, gwylio
gobaith
ar unwaith, yn syth bin
sefyll
twp, ffôl

yn sydyn
bod
uchaf, mwyaf, gorau (o'r)
goresgyn, trechu
codi, sefyll
ei, eu (meddu)
siop, tafarn
bod yn dawel, bod yn ddistaw
o'r fath
felly
fodd bynnag
o'r diwedd, yn olaf
mor fawr, cymaint
templ
amser
dal, cadw, meddu
tir, daear
dychryn
ofn, ofni
codi, esgyn
cynifer
cyfan
trosglwyddo
llusgo, tynnu
ar draws
tri
trist
chi (unigol)
yna

turba, turbae, b.
 tutus, tuta, tutum
 tuus, tua, tuum
 ubi (diog.)
 umquam (diog.)
 unde (diog.)
 unus, una, unum
 urbs, urbis, b.
 ut (diog.) + dibynnol
 ut (diog.) + mynegol
 uxor, uxoris, b.
 vehementer (diog.)
 vendo, vendere, vendidi, venditus
 venio, venire, veni
 verbum, verbi, d.
 verus, vera, verum
 vester, vestra, vestrum
 vestimenta, vestimentorum, d. ll.
 via, viae, b.
 video, videre, vidi, visus
 villa, villae, b.
 vinco, vincere, vici, victus
 vinum, vini, d.
 vir, viri, g.
 vita, vitae, b.
 vivo, vivere, vixi
 vivus, viva, vivum
 vix (diog.)
 voco, vocare, vocavi, vocatus
 volo, velle, volui
 vos, vestrum
 vox, vocis, b.
 vulnus, vulneris, d.
 vultus, vultus, g.

torf
 diogel
 eich (unigol), eich un chi
 ble, pryd, ble?
 erioed
 o ble
 un
 dinas
 hynny, fel bod, er mwyn bod
 fel
 gwraig
 yn dreisgar, yn uchel, yn gryf
 gwerthu
 dod
 gair
 gwir, real
 eich (lluosog), eich un chi
 dillad
 stryd, ffordd
 gweld
 tŷ, tŷ gwledig
 gorchfygu, ennill, buddugol
 gwin
 dyn
 bywyd
 byw, yn fyw
 yn fyw, yn byw
 prin, o'r braidd, gydag anhawster
 galw
 eisiau
 chi (lluosog)
 llais, lleisio
 anaf
 mynegiant, wyneb

Rhestr Eirfa Ddiffiniedig ar gyfer Cydran 1 (Adran B: Cyfieithiad Cymraeg i Ladin)

ar draws
yn erbyn
yn fyw
ar ei ben ei hun
blin
cyhoeddi
gofyn am
ymosod
drwg
hardd
rhwng
mawr
galw
cludo
plant
cadlywydd
torf
creulon
crïo
merch
annwyl
mynnu
anobeithio
cinio
ofnadwy
ymerodraeth
mynd i mewn
ychydig
ymladd
cyntaf
bwyd
fforwm
ffrind
gardd
giât
rhodd
merch
rhoi
duw
duwies
da
cyfarch
hapus
caled
cymorth
cuddio
uchel
tŷ
brysio
gŵr
i mewn
lladd
caredig
tir
bywyd
hir

trans + gwrthrychol
contra + gwrthrychol
vivus
solus
iratus
nuntio
rogo
oppugno
malus
pulcher
inter + gwrthrychol
magnus
voco
porto
liberi
legatus
turba
saevus
lacrimo
filia
carus
postulo
despero
cena
dirus
imperium
intro
pauci, paucae, pauca
pugno
primus
cibus
forum
amicus
hortus
porta
donum
puella
do
deus
dea
bonus
saluto
laetus
durus
adiuvo
celo
altus
villa
festino
maritus
in + gwrthrychol
neco
benignus
terra
vita
longus

gofalu am
 edrych ar
 caru
 dyn
 llawer
 meistr
 negesydd
 meistres
 arian
 fy
 ger
 newydd
 dim
 canmol
 paratoi
 gwobr
 gwir
 adrodd
 Rhufeinig
 trist
 diogel
 arbed
 siop
 gweiddi
 arwydd
 caethwas
 caethferch
 bach
 mab
 sefyll
 stori
 stryd
 dwl
 teml
 ofnus
 trwy
 i
 aros am
 cerdded
 mur
 llydan
 menyw
 gair
 gwaith
 eich

curo
 specto
 amo
 vir
 multi, multae, multa
 dominus
 nuntius
 domina
 pecunia
 meus
 prope + gwrthrychol
 novus
 nullus
 laudo
 paro
 praemium
 verus
 narro
 Romanus
 miser
 tutus
 servo
 taberna
 clamo
 signum
 servus
 ancilla
 parvus
 filius
 sto
 fabula
 via
 stultus
 templum
 perterritus
 per + gwrthrychol
 ad + gwrthrychol
 exspecto
 ambulo
 murus
 latus
 femina
 verbum
 laboro
 tuus

ATODIAD B

Ffuriant a Chystrawen ar gyfer Cydran 1

Cyfieithu a deall y Lladin (Adran A)

Ffuriant

Enwau rheolaidd o'r pum rhediad

Ffuriau'r enwau afreolaidd sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig

Berfau rheolaidd o'r pedwar rhediad:

- presennol, dyfodol, amherffaith, perffaith a gorberffaith mynegol gweithredol
- presennol, amherffaith a pherffaith mynegol goddefol a deponent, 3ydd person unigol a lluosog
- amherffaith a gorberffaith dibynnol gweithredol
- presennol annherfynol gweithredol
- rhangymeriad presennol a pherffaith
- gorchmynnol gweithredol: unigol a lluosog

Berfau afreolaidd

1. *sum, possum*:

- presennol ac amherffaith mynegol
- presennol annherfynol
- amherffaith dibynnol

2. *eo, fero, volo, nolo*:

- presennol, amherffaith, perffaith a gorberffaith mynegol gweithredol
- amherffaith a gorberffaith dibynnol gweithredol
- presennol annherfynol gweithredol
- rhangymeriad presennol
- gorchmynnol gweithredol: unigol a lluosog

Ansoddeiriau rheolaidd o'r holl fathau safonol

Ffuriau cymharol ac eithaf yr holl ansoddeiriau sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig

Adferfau rheolaidd, yn cynnwys ffurfiau eithaf ac eithrio ffurfiau cymharol

Ffuriau'r rhagenwau a'r ansoddeiriau rhagenwol sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig

Cystrawen

Defnyddiau safonol o bob achos

Ymadroddion amser

Y defnydd o'r holl arddodiaid sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig

Y defnydd o'r derbyniol, a gymerwyd gan ferfau sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig

Datganiadau, cwestiynau a gorchmynion uniongyrchol

Eithriadau gyda *noli/nolite*

Datganiadau, cwestiynau a gorchmynion anuniongyrchol

Defnyddiau o'r rhangymeriad gweithredol presennol a'r rhangymeriaid goddefol a deponent perffaith, ac eithrio'r abladol diamod

Brawddegau amodol (presennol a'r gorffennol agored yn unig)

Cymalau perthynol gyda'r mynegol

Cymalau pwrpas a gyflwynwyd gan *ut/ne*

Cymalau canlyniad

Cymalau amserol a gyflwynwyd gan y cyfuniadau sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig
 Cymalau achosol a gyflwynwyd gan *quod* a *cum*
 Cymalau addefol a gyflwynwyd gan *quamquam*

Cyfieithu i'r Lladin (Adran B)

Presennol, amherffaith a pherffaith mynegol gweithredol, 3^{ydd} person unigol a lluosog yn unig, rhediad cyntaf yn unig
 Enwau rheolaidd o'r rhediad cyntaf ac ail yn unig, enwol a gwrthrychol, unigol a lluosog
 Ansoddeiriau o'r rhediad cyntaf ac ail yn unig, ac eithrio ffurfiau cymharol ac eithaf
 Defnydd o arddodiaid cyffredin

Gramadeg a Chystrawen (Adran B)

Geiriau sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig ar gyfer Adran A
 Presennol, amherffaith a pherffaith mynegol gweithredol, 3^{ydd} person unigol a lluosog, a phresennol mynegol annherfynol yn unig
 Enwau ac ansoddeiriau rheolaidd o'r tri rhediad cyntaf yn unig
 Ansoddeiriau cadarnhaol ac eithaf ond nid ffurfiau cymharol
 Pob achos, unigol a lluosog (ond gofynnir cwestiynau am yr achosion enwol a gwrthrychol yn unig)
 Arddodiaid sydd wedi'u rhestru yn y Rhestr Eirfa Ddiffiniedig ar gyfer Adran A
 Y rhagenwau *hic ac ille**
 Cymalau achosol a gyflwynwyd gan *quod**
 Cymalau amserol a gyflwynwyd gan *ubi**

*Efallai y bydd y nodweddion hyn yn ymddangos yn y darn, ond ni fyddant yn cael eu profi.

ATODIAD C

Testunau a meysydd astudio ar gyfer Cydran 3B

Cydran 3B: Gwareiddiad Rhufain

Dyma'r meysydd astudio ym mhob testun y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu arnynt. Bydd canolfannau'n dewis un testun o ddewis o ddau.

Nid oes unrhyw ffynonellau penodol wedi'u gosod ar gyfer astudio. Mae ystod eang o ddeunydd ffynhonnell ar gael ar wefannau CBAC Eduqas a Cambridge School Classics Project i helpu athrawon a dysgwyr. Wrth osod papurau cwestiynau, gall arholwyr, yn ôl eu disgrisiwn, dynnu ar y detholiad hwn a deunydd ffynhonnell cysylltiedig arall.

Testunau 5 a 6 i'w harholi yn 2024, 2025 a 2026

Testun 5: Bywyd teuluol Rhufeinig

- Dynion a menywod
 - Y penteulu, rôl a chyfrifoldeb
 - Rôl menywod ar yr aelwyd
 - Caethweision a gweision rhydd ar yr aelwyd
- Plant
 - Genedigaeth a marwolaeth
 - Defodau dod i oed
 - Agweddau tuag at blant
- Addysg
 - Addysg bechgyn a merched
 - Camau gwahanol
 - Profiad disgyblion
- Priodas
 - Gwahanol fathau o briodas
 - Goblygiadau i fenywod
 - Ysgariad
- Crefydd deuluol
 - Addoli yn y cartref
 - Lares a phenates
 - Beddau a hynafiaid

Testun 6: Dinas Rhufain

- Dechreuadau'r ddinas
 - Chwedlau sylfaen (Aeneas, Romulus a Remus)
 - Lleoliad a thwf y ddinas
 - Tân mawr OC64 a'r ailadeiladu dilynol

- Dinas o gyferbyniadau
 - Gwahanol ardaloedd o'r ddinas a'u nodweddion (Subura, Palatine, Capitoline)
 - Porthladd Ostia, nodweddion a phwysigrwydd
 - Y cyfoethog a'r tlawd
- Bywyd yn ninas Rhufain
 - Tai, blociau fflatiau a'r *domus aurea*
 - Cyflenwad bwyd a dŵr
 - Profiad y trigolion
- Adeiladau a henebion – dylunio, adeiladu a phwrpas
 - Bwâu, traphontydd dŵr a'r Cloaca Maxima
 - Y Pantheon
 - Y Circus Maximus
- Y fora
 - Y *forum Romanum* – adeiladau, nodweddion a phwysigrwydd
 - Y *forum Boarium* a fforwm Trajan
 - Rhesymau dros adeiladu *fora* a'u heffaith ar ddinas Rhufain

Testunau 7 ac 8 i'w harholi yn 2027, 2028, a 2029

Testun 7: Caethwasiaeth yn y Byd Rhufeinig

- **Y ffordd i gaethwasiaeth**
 - Carcharorion rhyfel, môr-ladron a herwgipio
 - Geni i gaethwasiaeth
 - Caethwasiaeth wirfoddol
 - Cost y caethion
- **Bywydau pobl gaeth**
 - Caethweision trefol (y ddau ryw): Tasgau a chyfrifoldebau yn y cartref
 - Caethweision gwledig (y ddau ryw): tasgau a chyfrifoldebau yn y wlad.
 - Servi publici
 - Gladiatoriaid, cerbydwyr rhyfel, actorion
- **Hawliau a chyfrifoldebau**
 - Hierarchaeth caethweision o fewn y *familia*
 - Addysg, sgiliau, a dulliau dylanwadu
 - Agweddau'r rhydd tuag at y caethion
- **Gwrthsefyll caethwasiaeth**
 - Gwrthryfel Spartacus
 - Cosbau i gaethweision
 - Rhedeg i ffordd, dwyn a llofruddio
- **Rhyddid**
 - Proses ryddhau
 - Hawliau a statws personau sydd wedi'u rhyddhau

Testun 8: Gwyliau ac Addoli Rhufeinig

- **Gwyliau Rhufeinig Mawr: tarddiad, defodau a dathliadau**
 - Lupercalia
 - Bona Dea (preifat a chyhoeddus)
 - Saturnalia
- **Prif demlau ac adeiladau crefyddol Rhufeinig**
 - Nodweddion cysegr a theml Rufeinig, yn cynnwys yr allor
 - Ara Pacis
 - Pantheon
 - Teml Vesta
- **Offeiriaid, offeiriadesau a swyddogion crefyddol**
 - Rolau a dyletswyddau pontiffau (gan gynnwys y Pontifex Maximus), fflameniaid, daroganwyr, dewiniaid ymysgaroedd, gwryfon Vesta
 - Dulliau a phrosesau aberthu
 - Mathau o offrymau
- **Crefydd breifat: addoli yn y cartref**
 - Y larariwm a duwiau cartref
 - Genedigaethau, seremonïau enwi, dod i oed, defodau priodas
 - Gŵyl Vestalia
- **Anrhydeddu'r meirw**
 - Beddau a chladdedigaeth
 - Gwyliau'r meirw: Lemuria a Parentalia
 - Credoau yn y bywyd tragwyddol